**ATODIAD 2**

**TEMPLED CYNIGION ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2014-2017**

| |
|---|
| **Teitl y syniad:** OED 7<br>Adolygu darpariaeth dydd ar gyfer oedolion ag Anabledd Dysgu |
| **Adran**<br>Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Beth yw'r cynnig**<br>Adolygu Gwasanaethau Dydd ag edrych ar ffyrdd o wella gwasanaethau ymhellach gyda mwy o ffocws ar alluogi a hybu annibyniaeth. Gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliad perthnasol i ddatblygu mwy o gyfleoedd cymunedol drwy wirfoddoli neu waith cyflogedig. Datblygu cyfleoedd i unigolion ddysgu sgiliau newydd, ennill cymwysterau a chymorth i ganfod hyfforddiant a swydd. Parhau i ddatblygu model o gefnogaeth sydd â ffocws ar ganlyniadau, sy'n canolbwyntio ar alluogi a'r model symud ymlaen. Adeiladu ar gryfderau unigolion a chefnogaeth i ddatblygu i'w llawn botensial. Sicrhau fod unigolion yn derbyn y lefel gywir o gefnogaeth er mwyn cwrdd â'u hanghenion gall hyn olygu fod unigolion angen lefel is o gefnogaeth wrth iddynt ddatblygu sgiliau newydd.<br>. |
| **A yw'n gynnig cadarn neu amlinellol?**<br>Cadarn |
| **Swm i'w arbed -** £85,000 |
| **Ar gychwyn pa chwarter o'r flwyddyn ariannol y gellid tynnu'r swm allan o'r gyllideb?** |
| **Effaith ar bobl Gwynedd**<br>Byddai'n rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol ymdopi â newid yn eu bywydau, ond rydym yn grediniol, yn y tymor canolig, y byddai'r cynlluniau yn gwella ansawdd bywyd gan eu bod yn gynlluniau sy'n anelu at wireddu'r weledigaeth 'Model Symud Ymlaen'. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar rymuso pobl a sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial hwy eu hunain, tra'n parhau i dderbyn y gofal y maent ei angen er mwyn sicrhau eu diogelwch a chyflawni'r canlyniadau gorau. |
| **Effaith argynlluniau'r Cynllun Strategol / Polisi**<br>Mae'r syniad yn cyd-fynd yn gyfan gwbl â chynnwys y Cynllun Strategol. |
| **Effaith ar faterion Cydraddoldeb**<br>Byddai'r syniad yn cael effaith ar bobl fwyaf bregus cymdeithas, nifer fawr ohonynt yn anabl. Ond rhaid pwysleisio na fyddai unrhyw anghenion gofal na fyddai'n cael eu diwallu. |
| **Effaith ar Staff**<br>Gellir rhagweld gostyngiad yn y nifer gweithwyr cefnogol yn y darpariaeth mewnol ag allanol a gyflogir ar hyn o bryd. |
| **Effaith Gofodol**<br>Dim effaith gofodol amlwg |

**TEMPLED CYNIGION ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2014-2017**

| |
|---|
| **Teitl y syniad:** OED 8<br>Adolygu **Gwasanaethau Cefnogol** Anabledd Dysgu<br>**Gwasanaeth Cefnogol** |
| **Adran**<br>Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Beth yw'rcynnig**<br>Adolygu Gwasanaethau Cefnogol er mwyn sicrhau gwasanaeth sydd yn fwy ymatebol a chwrdd ag anghenion pobl yn well. Mae angen sicrhau fod pobl ag anabledd dysgu yn cael cyfle i gymryd rhan mewn bywyd cymunedol fel aelodau cyfartal ag yn cael cyfle i ddefnyddio gwasanaethau prif lif. Mae angen sicrhau fod ffocws y gwasanaeth wedi ei ganoli ar y person ei hun, yn edrych ar y person fel unigolyn ac yn archwilio gyda nhw pa bethau y gallent eu gwneud drostynt eu hunain a phwy a beth sydd ganddynt o'u cwmpas yn eu rhwydweithiau naturiol( teulu a chyfeillion) ac yn y gymuned, i gwrdd â'u hanghenion. Datblygu cynllun ffrindiau a sefydlu grwpiau ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd cymdeithasu, hamddena a datblygu sgiliau ar gyfer unigolion. Mae'n bwysig sicrhau y cydbwysedd cywir o gefnogaeth gyda thâl a heb dâl i bob unigolyn. |
| **A yw'n gynnig cadarn neu amlinellol?**<br>Cadarn |
| **Swm i'w arbed -** £180,000 |
| **Ar gychwyn pa chwarter o'r flwyddyn ariannol y gellid tynnu'r swm allan o'r gyllideb?**<br>Gellir ystyried tynnu peth o'r swm a adnabyddir ar gychwyn 2015-16 |
| **Effaith ar bobl Gwynedd**<br>Byddai'n rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol ymdopi â newid yn eu bywydau, ond rydym yn grediniol, yn y tymor canolig, y byddai'r cynlluniau yn gwella ansawdd bywyd gan eu bod yn gynlluniau sy'n anelu at wireddu'r weledigaeth 'Model Symud Ymlaen'. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar rymuso pobl a sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial hwy eu hunain, tra'n parhau i dderbyn y gofal y maent ei angen er mwyn sicrhau eu diogelwch a chyflawni'r canlyniadau gorau. |
| **Effaith ar gynlluniau'r Cynllun Strategol/Polis**<br>Mae'r syniad yn cyd-fynd yn gyfan gwbl â chynnwys y cynllun strategol. |
| **Effaith ar faterion Cydraddoldeb**<br>Byddai'r syniad yn cael effaith ar bobl fwyaf bregus cymdeithas, nifer fawr ohonynt yn anabl. Ond rhaid pwysleisio na fyddai unrhyw anghenion gofal na fyddai'ncael eu diwallu. Os bydd asesiad wedi adnabod angen yna ar y cyd gyda'r unigolyn a'r teulu fe geisir cytuno ar y ffordd mwyaf addas a chost effeithiol i ddiwallu yr anghenion hynny. |
| **Effaith ar Staff**<br>Yn anorfod bydd hyn yn golygu gostyngiad yn nifer y gweithwyr cefnogol a gyflogir – rhagwelir 7.4 |
| **EffaithGofodol**<br>Dim effaith gofodol amlwg |

**TEMPLED CYNIGION ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2014-2017**

| |
|---|
| **Teitl y syniad:** OED 9<br>Adolygu darpariaeth **Gofal Ysbaid** Anabledd Dysgu |
| **Adran**<br>Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Beth yw'r cynnig**<br>Adolygu gwasanaeth ysbaid o ran natur a chost y darpariaeth cyfredol. Ar hyn o bryd mae gan y gwasanaeth gytundeb gwasanaeth gyda Chartrefi Cymru ar gyfer darparu gofal ysbaid mewn dau eiddo – un ym Mangor a llall yn Nefyn.<br>Angen ystyried ystod o ddarpariaethau a datblygu gwasanaethau er mwyn cynnig mwy o ddewisiadau ysbaid a chwrdd ag anghenion unigolion mewn modd addas..<br>Angen ystyried opsiynau eraill fel Gwesty Seren a Chynllun Lleoli Oedolion ar gyfer cynnig darpariaeth gofal ysbaid. |
| **A yw'n gynnig cadarn neu amlinellol?**<br>Cadarn |
| **Swm i'w arbed -** £130,000 |
| **Ar gychwyn pa chwarter o'r flwyddyn ariannol y gellid tynnu'r swm allan o'r gyllideb?**<br>2016-17 |
| **Effaith ar bobl Gwynedd**<br>Byddai'n rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol ymdopi â newid yn eu bywydau, ond rydym yn grediniol, yn y tymor canolig, y byddai'r cynlluniau yn gwella ansawdd bywyd gan eu bod yn gynlluniau sy'n anelu at wireddu'r weledigaeth 'Model Symud Ymlaen'. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar rymuso pobl a sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial hwy eu hunain, tra'n parhau i dderbyn y gofal y maent ei angen er mwyn sicrhau eu diogelwch a chyflawni'r canlyniadau gorau. |
| **Effaith ar gynlluniau'r Cynllun Strategol/Polisi**<br>Mae'r syniad yn cyd-fynd yn gyfangwbl â chynnwys y Cynllun Strategol |
| **Effaith ar faterion Cydraddoldeb**<br>Byddai'r syniad yn cael effaith ar bobl mwyaf bregus cymdeithas, nifer fawr ohoynt yn anabl. Ond rhaid pwysleisio na fyddai unrhyw anghenion gofal na fyddai'n cael eu diwallu. Os fydd asesiad wedi adnabod bod angen i'w ddiwallu yna ar y cyd gyda'r unigolyn a'r teulu fe gytunir ar y cyd ar y ffordd mwyaf addas a chost effeithiol i ddiwallu yr angen. |
| **Effaith ar Staff**<br>Dim effaith ar staff y Cyngor ond rhagwelir 5.3 swydd allanol |
| **Effaith Gofodol**<br>Dim effaith gofodol amlwg |

**TEMPLED CYNIGION ARBEDION EFFEITHLONRWYDD 2014-2017**

| |
|---|
| **Teitl y syniad:** OED 10<br>Ail asesu ag adolygu **Gwasanaethau Llety Cefnogol** Anabledd Dysgu |
| **Adran**<br>Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Beth yw'rcynnig**<br>Ail asesu ag adolygu'r gefnogaeth sy'n cael ei ddarparu mewn llety cefnogol er mwyn sicrhau lefel priodol o gefnogaeth. Sicrhau fod unigolion yn derbyn cefnogaeth i gyrraedd targedau unigol ag yn adeiladu ar eu cryfderau.. Cynyddu defnydd o dechnoleg gynorthwyol ar gyfer cefnogi unigolion fod mor annibynnol â phosib. Sicrhau amrediad o wasanaethau a datblygu modelau newydd e.e. model Craidd a Chlwstwr a fydd yn cynnig mwy o hyblygrwydd i'r tenant ac wedi'i gyfuno a thechnoleg gynorthwyol yn creu amgylchedd diogel a chefnogol, heb orddarpariaeth. Cyflwyno cynlluniau 'key ring' sydd yn golygu cael un tîm o weithwyr yn cefnogi unigolion mewn un dalgylch yn hytrach na chefnogaeth gweithwyr mewn tai unigol. |
| **A yw'n gynnig cadarn neu amlinellol?**<br>Cadarn |
| **Swm i'w arbed -** £150,000 |
| **Ar gychwyn pa chwartero'r flwyddyn ariannol y gellid tynnu'r swm allan o'r gyllideb?**<br>Yn parhau |
| **Effaith ar bobl Gwynedd**<br>Byddai'n rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol ymdopi â newid yn eu bywydau, ond rydym yn grediniol, yn y tymor canolig, y byddai'r cynlluniau yn gwella ansawdd bywyd gan eu bod yn gynlluniau sy'n anelu at wireddu'r weledigaeth 'Model Symud Ymlaen'. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar rymuso pobl a sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial hwy eu hunain, tra'n parhau i dderbyn y gofal y maent ei angen er mwyn sicrhau eu diogelwch a chyflawni'r canlyniadau gorau. |
| **Effaith ar gynlluniau'r Cynllun Strategol/Polis**<br>Mae'r syniad yn cyd-fynd yn gyfan gwbl â chynnwys y Cynllun Strategol |
| **Effaith ar faterion Cydraddoldeb**<br>Byddai'r syniad yn cael effaith ar bobl mwyaf bregus cymdeithas, nifer fawr ohonynt yn anabl. Ond rhaid pwysleisio na fyddai unrhyw anghenion gofal na fyddai'n cael eu diwallu |
| **Effaith ar Staff**<br>Fe welir gostyngiad yn nifer y gweithwyr cefnogol a gyflogir – rhagwelir 3.1 mewnol a 3.1 allanol. |
| **Effaith Gofodol**<br>Dim effaith gofodol amlwg |

## ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB – PROSIECT ADOLYGU GWASANAETHAU ANABLEDDAU DYSGU (OED 7 – 10)

### 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

Erin Fôn Jones - Rheolwr Prosiect, Cefnogaeth Gorfforaethol
Olwen Ellis Jones - Rheolwr Gwasanaeth Anabledd Dysgu, Oedolion Iechyd a Llesiant

### 2) PARTNERIAID

Nodwch unrhyw rai eraill sydd angen eu cynnwys fel rhan o'r broses asesu: Gall hyn gynnwys staff rheng flaen, sefydliadau partner, arbenigwyr maes ayb.

Defnyddwyr gwasanaeth – gwasanaethau anableddau dysgu
Teuluoedd / gofalwyr defnyddwyr gwasanaeth – gwasanaethau anableddau dysgu
Darparwyr gwasanaeth (Allanol) & staff
Darparwyr gwasanaeth (Mewnol) & staff
Staff Tîm Anableddau Dysgu
Aelod Cabinet Gofal, Cynghorydd Gareth Roberts
Aelodau'r Cyngor Gwynedd Council
Gwasanaeth Adfocatiaeth
Y Gymuned leol

### 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

12/08/2015

### 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

Bydd yr asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei ddiwygio yn barhaus wrth i gynlluniau gael eu gweithredu.

### 5) NOD AC AMCANION Y POLISI / GWASANAETH / SWYDDOGAETH

Nodwch pam fod angen y polisi / gwasanaeth / swyddogaeth a beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Mae angen newid sut mae gwasanaethau anableddau dysgu yn cael eu darparu yng Ngwynedd yn y dyfodol am dri rheswm.

1. I sicrhau fod pawb, gyda chymorth addas, yn gallu byw mor annibynnol â phosib a chyrraedd eu llawn botensial.

2. I gydymffurfio â strategaeth gwlad (Datganiad ar Bolisi ac arfer ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu, Llywodraeth Cymru 2007) a chyfraith gwlad (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) sydd yn datgan y disgwyliad fod Cynghorau yn:
   - gwneud bywyd yn well i bobl a'u gofalwyr,
   - gwneud yn siŵr bod pobl yn cael yr help sydd angen arnyn nhw i gael bywyd da,
   - rhoi llais cryf a mwy o reolaeth i bobl dros eu bywydau,
   - gwneud yn siŵr bod cymunedau yn cael cyfle i gynnig eu gwybodaeth a'u profiad,
   - gwneud cyfraith gofal cymdeithasol yn gliriach ac yn symlach.

3. I ymateb i'r her ariannol, gan y bydd tua £50 miliwn yn llai o arian ar gael i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau lleol yn y cyfnod hyd at 2017/18.

Amcanion y Cyngor ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu yn y dyfodol yw:

- darparu / cynnig gwasanaethau sy'n cefnogi pobl gydag anableddau dysgu i fyw mor annibynnol â phosib.
- darparu / cynnig gwasanaethau sydd yn galluogi pobl gydag anableddau dysgu i gyrraedd eu llawn botensial.
- canolbwyntio ar sgiliau a chryfderau pobl gydag anableddau dysgu i allu byw mor annibynnol â phosib yn eu cymunedau.
- targedu gwasanaethau ac adnoddau yn ofalus ar gyfer y bobl sydd fwyaf eu hangen.
- hyrwyddo, annog a chefnogi cymunedau lleol i wneud cymaint â phosib i helpu pobl gydag anableddau dysgu.

Mae sawl cynllun wedi eu hadnabod ar gyfer y maes anableddau dysgu, ac mae'r rhain yn cael ei nodi mewn mwy o fanylder isod o ran beth fydd yr awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddynt.

**OED 7 – Ail fodelu Gwasanaeth Dydd Anableddau Dysgu**

- Adolygu gwasanaethau dydd ag edrych ar ffyrdd o wella gwasanaethau ymhellach gyda mwy o ffocws ar alluogi a hybu annibyniaeth.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda budd-ddeiliaid perthnasol i ddatblygu mwy o gyfleoedd cymunedol drwy wirfoddoli neu waith cyflogedig.
- Datblygu cyfleoedd i unigolion ddysgu sgiliau newydd, ennill cymwysterau a chymorth i ganfod hyfforddiant a swydd.
- Parhau i ddatblygu model o gefnogaeth sydd â ffocws ar ganlyniadau, sy'n canolbwyntio ar alluogi a'r model symud ymlaen. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar rymuso pobl a sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial hwy eu hunain, wrth barhau i dderbyn y gefnogaeth y maent ei angen er mwyn sicrhau eu diogelwch a chyflawni'r canlyniadau gorau.
- Adeiladu ar gryfderau unigolion a chefnogaeth i ddatblygu i'w llawn botensial.
- Sicrhau fod unigolion yn derbyn y lefel gywir o gefnogaeth er mwyn cwrdd â'u hanghenion - gall hyn olygu fod unigolion angen lefel is o gefnogaeth wrth iddynt ddatblygu sgiliau newydd.

**OED 8 – Ail fodelu Gwasanaethau Cefnogol Anableddau Dysgu**

- Adolygu Gwasanaethau Cefnogol er mwyn sicrhau gwasanaeth sydd yn fwy ymatebol a chwrdd ag anghenion pobl yn well.
- Mae angen sicrhau fod pobl ag anabledd dysgu yn cael cyfle i gymryd rhan mewn bywyd cymunedol fel aelodau cyfartal ag yn cael cyfle i ddefnyddio gwasanaethau prif lif.
- Mae angen sicrhau fod ffocws y gwasanaeth wedi ei ganoli ar y person ei hun, yn edrych ar y person fel unigolyn ac yn archwilio gyda nhw pa bethau y gallent eu gwneud drostynt eu hunain a phwy a beth sydd ganddynt o'u cwmpas yn eu rhwydweithiau naturiol (teulu a chyfeillion) ac yn y gymuned, i gwrdd â'u

hanghenion.

- Datblygu cynllun ffrindiau a sefydlu grwpiau ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd cymdeithasu, hamddena a datblygu sgiliau ar gyfer unigolion.
- Mae'n bwysig sicrhau'r cydbwysedd cywir o gefnogaeth gyda thâl a heb dâl i bob unigolyn.

**OED 9 – Ail fodelu Gwasanaethau Gofal Ysbaid Anableddau Dysgu**

- Adolygu gwasanaeth ysbaid o ran natur a chost y ddarpariaeth gyfredol. Ar hyn o bryd mae gan y gwasanaeth gytundeb gwasanaeth gyda Chartrefi Cymru ar gyfer darparu gofal ysbaid mewn dau eiddo - un ym Mangor a llall yn Nefyn.
- Angen ystyried ystod o ddarpariaethau a datblygu gwasanaethau er mwyn cynnig mwy o ddewisiadau ysbaid a chwrdd ag anghenion unigolion mewn modd addas..
- Angen ystyried opsiynau eraill fel Gwestai Ysbaid, Chynllun Lleoli Oedolion neu'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol ar gyfer cynnig darpariaeth gofal ysbaid.

**OED 10 – Ail fodelu Gwasanaethau Llety Cefnogol Anableddau Dysgu**

- Ail asesu ag adolygu'r gefnogaeth sy'n cael ei ddarparu mewn llety cefnogol er mwyn sicrhau lefel priodol o gefnogaeth.
- Sicrhau fod unigolion yn derbyn cefnogaeth i gyrraedd targedau unigol ag yn adeiladu ar eu cryfderau.
- Cynyddu defnydd o dechnoleg gynorthwyol ar gyfer cefnogi unigolion fod mor annibynnol â phosib.
- Sicrhau amrediad o wasanaethau a datblygu modelau newydd e.e. model Craidd a Chlwstwr a fydd yn cynnig mwy o hyblygrwydd i'r tenant ac wedi'i gyfuno a thechnoleg gynorthwyol yn creu amgylchedd diogel a chefnogol, heb orddarpariaeth.
- Cyflwyno cynlluniau 'key ring' sydd yn golygu cael un tîm o weithwyr yn cefnogi unigolion mewn un dalgylch yn hytrach na chefnogaeth gweithwyr mewn tai unigol.

**6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD**

Pa gyfranogiad ac ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y polisi / gwasanaeth / swyddogaeth a beth oedd y canlyniad?

Mae cynllun ymgysylltu wedi ei llunio gyda Swyddogion y Cyngor sydd yn adnabod yr holl fudd-ddeiliaid yr ydym wedi ymgysylltu a nhw.(Gweler Atodiad)

Roedd y mesuriadau isod mewn lle i gefnogi budd-ddeiliaid yn ystod yr ymgysylltu:

1. Pecyn ymgysylltu syml sydd yn nodi'r cefndir ac yn gosod y sefyllfa yn ei gyd-destun - copi papur yn cael ei yrru i ddefnyddwyr gwasanaeth a fersiwn electroneg ar gael ar-lein i bawb arall

2. Holiadur barn syml - copi papur yn cael ei yrru i ddefnyddwyr gwasanaeth a fersiwn electroneg ar gael ar-lein i bawb arall

3. 7 sesiwn ymgysylltu (gyda chefnogaeth adfocatiaeth annibynnol) wedi eu cynnal mis Medi / Hydref 2015 ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd / gofalwyr (3 yn Arfon, 2 yn Nwyfor a 2 ym Meirionnydd)

4. Sesiwn ymgysylltu gyda darparwyr gwasanaethau yn cael ei gynnal mis Chwefror 2016.

5. Rheolwr Ymgysylltu'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar gael i dderbyn sylwadau yn ystod a dilyn yr ymgysylltiad. - Agored i dderbyn sylwadau drwy'r post, e-bost neu ffôn.

Bydd ymgysylltu ag ymgynghori priodol yn cymryd lle fel mae'r ffrydiau gwaith y prosiect yn datblygu, mae'n fwriad cynnal grwpiau ffocws rheolaidd gyda'r budd-ddeiliad.

**7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol neu genedlaethol, ar fonitro ar ymgynghori, sylwadau staff ayb

Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y "Ddeddf")

Mae'r Ddeddf yn dod i rym yn 2016. Mae'r Ddeddf yn adrodd bod yna bwysigrwydd hyrwyddo annibyniaeth yr oedolyn pan fo bosib (cymal 6(3)(b)). Mae'r Ddeddf hefyd yn dweud bod angen i Awdurdod Lleol ddarparu gwasanaeth ataliol a fydd yn galluogi pobl i fyw eu bywydau mewn ffordd mor annibynnol â phosibl cymal 15(2)(b)).

Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol (2007), Llywodraeth Cymru

Y strategaeth 10 mlynedd, Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol, yw sylfaen gwaith Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad.

Prif gynulleidfa darged y strategaeth yw awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynllunio strategol, am drefnu bod gwasanaethau yn cael eu darparu i fodloni anghenion, am gynnal asesiadau a rheoli gofal ar gyfer y sawl sydd angen help a chymorth, ac am amddiffyn oedolion a phlant sy'n agored i niwed.

Y weledigaeth yw gwasanaethau cymdeithasol sy'n gadarn, hygyrch, ac atebol, sy'n gwerthfawrogi beth yw anghenion dinasyddion a chymunedau, ac sy'n hyrwyddo annibyniaeth, cynhwysiant cymdeithasol, hawliau dinasyddion a chanlyniadau cadarnhaol. Bydd y weledigaeth hon yn cael ei chyflawni mewn ffordd hyblyg ac effeithlon, ar y cyd â gwasanaethau eraill y llywodraeth, y gwasanaeth iechyd, sefydliadau preifat a gwirfoddol, defnyddwyr y gwasanaeth a'r gofalwyr, a hynny i safon sy'n gyson uchel ledled Cymru

Gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy i Gymru: fframwaith gweithredu (2011), Llywodraeth Cymru

Mae'r fframwaith gweithredu yma yn cynnwys blaenoriaethau gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy i Gymru.

Datganiad ar Bolisi ac arfer ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu, Llywodraeth Cymru

(2007)

Mae’r datganiad yn adrodd bod gan bobl ag anabledd dysgu'r un hawliau a phawb arall i

- fyw bywydau iach, cynhyrchiol ac annibynnol gyda thriniaeth a chymorth priodol ac ymatebol i ddatblygu eu potensial mwyaf posib
- fod yn unigolion a phenderfynu ar faterion bob dydd a materion allweddol i’w bywydau drostynt eu hunain gan ymuno ym mhob proses o wneud penderfyniadau sy’n effeithio ar eu bywydau, gyda chyngor a chymorth priodol ac ymatebol lle bo angen
- byw eu bywydau o fewn eu cymuned, gan gynnal y rhwymau a’r cysylltiadau teuluol a chymdeithasol sy’n bwysig iddynt
- cael cymorth y cymunedau y maent yn rhan ohonynt a mynediad at wasanaethau cyffredinol ac arbenigol sy’n ymatebol i’w hanghenion, eu hamgylchiadau a’u dewisiadau unigol. (Tud 12)

Cynllun Comisiynu Anabledd Dysgu 2011-2016, Cyngor Gwynedd

Mae’r cynllun comisiynu anabledd dysgu Cyngor Gwynedd yn amlinellu sefyllfa anghenion oedolion gydag anabledd dysgu yng Ngwynedd o 2011 i 2016.

Prif nod Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Cyngor Gwynedd wrth gomisiynu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol yw sicrhau ein bod yn:

- cwrdd ag anghenion yr unigolyn
- cyfrannu tuag at gynnal annibyniaeth
- ddeniadol, addas a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol
- cynnig dewisiadau ac opsiynau i’r unigolyn
- cynnig gwerth am arian / yn gost effeithiol
- cwrdd â safonau disgwyliedig
- ddigon hyblyg i allu newid i gyfarch unrhyw newidiadau i amgylchiadau ac anghenion yr unigolyn.

Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-2017

Y Cynllun Strategol yw prif gynllun Cyngor Gwynedd.

Pwrpas y cynllun yw gosod gweledigaeth a blaenoriaethau Cyngor Gwynedd ar gyfer y cyfnod 2013 - 17 a disgrifio’r hyn y bydd y Cyngor yn ei wneud er mwyn eu cyflawni. Mae’r Cynllun Strategol yn disgrifio’r gwahaniaeth mae’r Cyngor eisiau ei wneud erbyn 2017 ac yn esbonio sut bydd y Cyngor yn mesur effaith ei waith dros y pedair blynedd.

Fe adolygwyd cynllun 2015 - 17 er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i wneud y pethau iawn o ystyried y cyd-destun o galedi ariannol rydym yn gweithio ynddo.

Gweledigaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer bywyd y Cynllun hwn yw:**Y gorau i bobl Gwynedd mewn cyfnod anodd**

Mae'r Cynllun Strategol yn nodi 16 amcan gwella ar draws saith maes thematig. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y materion y bydd Cyngor Gwynedd yn rhoi sylw pennaf iddynt dros gyfnod y cynllun. Gyda'r cyntaf, sef '**Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud**' yn arwain y cyfan

<u>Ymgysylltu</u>

Bydd canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu ar gael Chwefror 2016ymlaen.

**8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH**

Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut y caiff y rhain eu llenwi

<u>Ymgysylltu</u>

. Bydd canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu ar gael o Chwefror 206 ymlaen a bydd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei ddiweddaru i gynnwys y canlyniadau yna.

**9) PERTHNASEDD AC EFFAITH**

**9a)**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Oes | Bwriad y cynlluniau yw sicrhau cysondeb o ran gwasanaethau i bobol ag anabledd dysgu.<br><br>Mae'n bosib, oherwydd rhagfarn a stigma, y bydd y gymuned leol ddim yn barod i dderbyn a goddef pobl gydag anabledd dysgu pan fyddent yn mynychu a defnyddio gwasanaethau prif lif ac o ganlyniad efallai y bydd pobl gydag anabledd dysgu yn dioddef o wrthodiad. Wrth ddatblygu'r Cynlluniau felly byddwn yn ceisio sicrhau bod pobl gydag anabledd dysgu yn cael eu derbyn yn llawn yn eu cymunedau lleol ac yn addysgu'r cyhoedd er mwyn ceisio dileu rhagfarn a stigma. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Oes | Bwriad y cynlluniau yw hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb |
| **Meithrin perthnasau da** | Oes | Bydd adolygu'r anghenion gofal yn digwydd o fewn trefniadau adolygu pecynnau gan weithwyr cymdeithasol ar y cyd gyda'r defnyddiwr gwasanaeth.<br><br>Wrth adolygu'r anghenion gofal byddwn yn rhoi'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog ac yn ceisio sicrhau pecyn sydd yn galluogi pobl i fyw eu bywydau mewn ffordd mor annibynnol â phosibl wrth ddiwallu unrhyw anghenion gofal sydd ganddynt.<br><br>Gweledigaeth y cynlluniau yw annog defnyddwyr gwasanaeth i gael mynediad i wasanaethau a gweithgareddau yn y gymuned. Bydd hyn yn gallu cynyddu eu gwelededd a rhoi mwy o gyfle iddynt i gymysgu gyda phobl yn eu cymunedau lleol. Dros amser, byddai hyn hefyd yn gallu helpu i newid agwedd y cyhoedd mewn ffordd bositif a lleihau'r camwahaniaethu mae pobl gydag anabledd dysgu yn gallu ei ddioddef. |

**9b)**

| **Nodweddion** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Hil** | Dim effaith penodol i'r nodwedd yma wedi'i adnabod | Dim effaith penodol i'r nodwedd yma wedi'i adnabod |
| **Anabledd** | Oes | Byddai'n rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol ymdopi â newid yn eu bywydau, ond rydym yn grediniol, y byddai'r cynlluniau yn gwella ansawdd bywyd gan eu bod yn gynlluniau sy'n anelu at wireddu'r weledigaeth 'Model Symud Ymlaen'. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar rymuso pobl a sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial hwy eu hunain, wrth barhau i dderbyn y gofal y maent ei angen er mwyn sicrhau eu diogelwch a chyflawni'r canlyniadau gorau.<br><br>Rhaid pwysleisio na fyddai unrhyw anghenion gofal unigolion na fyddai'n cael eu diwallu. |
| **Rhyw** | Oes | Mae canran uchel iawn o'r gweithlu gweithwyr cefnogol (darpariaeth fewnol ac allanol) yn ferched. Drwy weithredu'r cynlluniau gellir rhagweld gostyngiad yn y nifer o weithwyr cefnogol yn y ddarpariaeth fewnol ag allanol a gyflogir ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r ffocws o roi'r person yn ganolog yn golygu y dylai defnyddwyr gwasanaeth allu ofyn am aelod o staff o'r un rhyw i gwrdd â'i anghenion personol, gan dybio bod cydbwysedd rhyw well o ran staff. |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim effaith penodol i'r nodwedd yma wedi'i adnabod | Dim effaith penodol i'r nodwedd yma wedi'i adnabod |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim effaith penodol i'r nodwedd yma wedi'i adnabod | Dim effaith penodol i'r nodwedd yma wedi'i adnabod |
| **Crefydd neu gred** | Dim effaith penodol i'r nodwedd yma wedi'i adnabod | Dim effaith penodol i'r nodwedd yma wedi'i adnabod |

| | | |
|---|---|---|
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim effaith penodol i'r nodwedd yma wedi'i adnabod | Bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i roi gwasanaeth i bobl yn eu dewis iaith. |
| **Oedran** | Oes | Mae'r cynlluniau dan sylw yn canolbwyntio ar wasanaethau ar gyfer oedolion (18+) gydag anabledd dysgu.<br><br>Efallai y bydd y cynlluniau dan sylw yn effeithio yn fwy ar ddefnyddwyr gwasanaeth hŷn sydd wedi bod yn derbyn gwasanaethau yn yr un ffyrdd ers nifer o flynyddoedd. Rydym yn cydnabod y bydd hi yn anoddach i'r bobl yma addasu wrth i'r gwasanaethau maent yn ei dderbyn newid. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cefnogi'r bobl yma yn ystod unrhyw gyfnod o newid. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim effaith penodol i'r nodwedd yma wedi'i adnabod | Dim effaith penodol i'r nodwedd yma wedi'i adnabod.<br><br>Byddwn yn parhau i cefnogi defnyddwyr gwasanaeth sydd yn mynd yn feichiog neu sydd a teulu eu hunain. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim effaith penodol i'r nodwedd yma wedi'i adnabod | Dim effaith penodol i'r nodwedd yma wedi'i adnabod. |

## 10) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH

| | |
|---|---|
| a) | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb**<br><br>Mae'r effeithiau posib o safbwynt cydraddoldeb wedi eu nodi yn nhabl 9b uchod.<br><br>Mae'r prif effeithiau posib y cynlluniau yma o safbwynt cydraddoldeb yn cynnwys:<br><br>• **Anabledd -** Defnyddwyr gwasanaeth cyfredol gydag anabledd dysgu yn gorfod ymdopi â newid yn eu bywydau, ond rydym yn grediniol, y byddai'r cynlluniau yn gwella ansawdd bywyd gan eu bod yn gynlluniau sy'n anelu at wireddu'r weledigaeth 'Model Symud Ymlaen'. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar rymuso pobl a sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial hwy eu hunain, wrth barhau i dderbyn y gofal y maent ei angen er mwyn sicrhau eu diogelwch a chyflawni'r canlyniadau gorau.<br><br>• **Rhyw -** Mae canran uchel iawn o'r gweithlu gweithwyr cefnogol (darpariaeth fewnol ac allanol) yn ferched. Drwy weithredu'r cynlluniau gellir rhagweld gostyngiad yn y nifer o weithwyr cefnogol yn y ddarpariaeth fewnol ag allanol a gyflogir ar hyn o bryd.<br><br>• **Oedran** - Mae'r cynlluniau dan sylw yn canolbwyntio ar wasanaethau ar gyfer oedolion (18+) gydag anabledd dysgu. Rhagwelir y bydd defnyddwyr gwasanaeth hŷn sydd wedi bod yn derbyn gwasanaethau yn yr un ffyrdd ers nifer o flynyddoedd yn ei gweld yn anoddach i addasu wrth i'r gwasanaethau maent yn ei dderbyn newid. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cefnogi'r bobl yma yn ystod unrhyw gyfnod o newid. |
| b) | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>**Ar gyfer pob un cynllun byddwn yn adnabod camau priodol ar gyfer lleihau neu wella'r effeithiau posib o safbwynt cydraddoldeb.**<br><br>Wrth adolygu'r anghenion gofal byddwn yn rhoi'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog ac yn ceisio sicrhau pecyn sydd yn galluogi pobl i fyw eu bywydau mewn ffordd mor annibynnol â phosibl wrth ddiwallu unrhyw anghenion gofal sydd ganddynt.<br><br>Byddwn yn sicrhau ein bod yn cefnogi'r defnyddwyr gwasanaeth yn ystod unrhyw gyfnod o newid ac yn adnabod fel rhan o'i cynlluniau gofal unrhyw effeithiau posib o ran newid ac unrhyw gamau liniaru i sicrhau fod y newidiadau yn cael effaith bositif ar fywydau bobl. |
| c) | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br>Nagoes – ond byddwn yn adolygu'r asesiad effaith cydraddoldeb yn rheolaidd fel mae cynlluniau yn datblygu. Bydd unrhyw gamau i leihau effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hadnabod yn gynlluniau gofal unigolion |

## 11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU

| |
|---|
| Bydd yr asesiad effaith cydraddoldeb yn cael ei adolygu fel lleiafswm bob 6 mis gan yr arweinydd a rheolwr prosiect. |

## 12) CYNLLUN GWEITHREDU

Dylid atodi Cynllun Gweithredu sy'n cynnwys y camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlen, ac amlinelliad o'r trefniadau adolygu a gwerthuso

| |
|---|
| Bydd rhaglenni gwaith y cynlluniau yn cynnwys y weithred o greu ac adolygu asesiad effaith cydraddoldeb.<br>Bydd copi o'r rhaglen waith y cynlluniau yn cael ei gynnwys fel rhan o'r asesiad effaith cydraddoldeb unwaith y bydd y Cynlluniau wedi eu cymeradwyo gan y cabinet ar y 19eg o Ionawr 2015. |

## 13) PENDERFYNU

| |
|---|
| Cyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad ar 16/02/2016 |